

2014 Rhif 1340 (Cy. 137)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Cefnffordd yr A449
(Cyfnewidfa Aber-nant,
Casnewydd) (Terfyn Cyflymder 50
mya Dros Dro) 2014**

Gwnaed

23 Mai 2014

Yn dod i rym

1 Mehefin 2014

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd - Caerwrangon (yr A449) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mehefin 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A449 (Cyfnewidfa Aber-nant, Casnewydd) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2014.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cyfnod y cyfyngiad” (“*restricted period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 1 Mehefin 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw:

i. y darn o gerbyffordd tua'r gogledd y gefnffordd yn Ninas Caesnewydd sy'n ymestyn o bwynt sy'n 140 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â chylchfan gylchredol

Cyfnewidfa Coldra hyd at bwynt sy'n 600 o fetrau i'r gogledd o danbont Bulmore Road;

ii. y darn o gerbyttfordd tua'r de y gefnffordd yn Ninas Casnewydd sy'n ymestyn o bwynt sy'n 1 cilometr i'r gogledd o danbont Bulmore Road hyd at bwynt sy'n 600 o fetrau i'r de o'r danbont o dan sylw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd.

Cymhwyso

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y mae'n yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

23 Mai 2014

R Morgan

RICHARD MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.